



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Partneriaethau

Dyddiad: Dydd Gwener, 2
Tachwedd 2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 8 TACHWEDD 2012 am 9.30 am yn YSTAFELL GYNHADLEDD, 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU BUDDIANT

Mae'r Aelodau'n datgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarn mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Rhoir gwybod am eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod ar frys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 16)

- (i) Cael cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2012 (copi ynghlwm).
- (ii) Cael cofnodion cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2012 (copi ynghlwm).

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL AM AMDDIFFYN OEDOLION YN SIR DDINBYCH (Tudalennau 17 - 30)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (copi ynghlwm) o ran perfformiad blynyddol ynglŷn ag Amddiffyn Oedolion mewn cydymffurfiaid â Chanllawiau Statudol.

9.35 a.m.

6 CYD-WASANAETH DYLETSSWYDD ARGYFWNG Y TU ALLAN I ORIAU (Tudalennau 31 - 38)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (copi ynghlwm) a oedd yn amlinellu cynnydd Tîm Dyletsswydd Argyfwng Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWEDT).

10.10 a.m.

Egwyl Fer

7 CYNLLUN GWEITHREDU DIOGELU PLANT YN DILYN ADRODDIAD SIR BENFRO (Tudalennau 39 - 62)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (copi ynghlwm) a oedd yn amlinellu Cynllun Gweithredu Diogelu Plant yn dilyn adroddiad Sir Benfro.

10.55 a.m.

8 CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID STRATEGOL TAIR BLYNEDD (Tudalennau 63 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (copi ynghlwm) sy'n manylu ar gefndir, diben a bwriadau'r Cynllun Gwasanaeth Ieuencid Strategol, a darparu'r drafft terfynol y bwriedir ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a'i gyhoeddi a'i ddosbarthu wedyn.

11.30 a.m.

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU (Tudalennau 91 - 108)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi ynghlwm) yn ceisio adolygiad o flaen raglen waith y pwyllgor a rhoi gwybod i'r aelodau am y materion perthnasol diweddaraf.

12:05pm

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Cael unrhyw wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Brian Blakeley
Joan Butterfield
Ann Davies
Meirick Davies
Alice Jones
Pat Jones

Margaret McCarroll
Dewi Owens
Merfyn Parry
Bill Tasker
Huw Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 27 Medi 2012 am 9.30.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Ann Davies, Meirick Davies, Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens, Merfyn Parry, Bill Tasker a/ac Huw Williams

Aelodau Cyfetholedig Mrs Gill Greenland and Dr Dawn Marjoram

HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Bill Cowie, Y Cynghorydd Bobby Feeley a/ac Y Cynghorydd Eryl Williams

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (HW), Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles (SE), Rheolwr Adfywio Strategol (MD), Cydlynnydd Rhwydwaith Addysg 14-19 oed (JG), Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (ST), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Busnes Bwrdd Lleol Diogelu Plant (GH), Uwch Swyddog Gwastraff (AR), Cydlynnydd Archwilio (RE) and Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH)

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe estynnodd groeso arbennig i'r Cynghorydd Sue Lloyd-Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg Partneriaethau a Phwyllgor Craffu CBS Conwy, Yr Athro Michael Scott, Is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr, a Matthew Stewart o Heddlu Gogledd Cymru.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ms C. Burgess, Ms. D. Houghton a/ac Alice Jones

2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Nid oedd gan yr un Aelod fuddiant personol na niweidiol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod.

3 MATERION BRYN YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2012 ac fe'u cymeradwywyd o ran eu cywirdeb.

Hysbysodd y Rheolwr Adfywio Strategol y Pwyllgor fod y Cabinet, ymhellach i Eitem 8, Cydweithrediad Rhanbarthol ar Ddatblygu Economaidd, wedi cymeradwyo cyfranogiad Cyngor Sir Ddinbych ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ers hynny.

Penderfynwyd derbyn y *Cofnodion a'u cymeradwyo'n gofnod cywir.*

5 ADOLYGIAD O ADDYSG UWCH YNG NGOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio Strategol (RhAS) adroddiad a oedd yn gofyn am sylwadau'r Pwyllgor ar y trefniadau cyfredol ar gyfer addysg uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru cyn cynnal adolygiad gan banel adolygu annibynnol dan gadeiryddiaeth Yr Athro Syr Adrian Webb, a ddyluniwyd i hwyluso cydlynad rhanbarthol agosach rhwng colegau addysg bellach lleol a Phrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam.

Cyflwynodd y RhAS yr Athro Mike Scott o Brifysgol Glyndŵr a roddodd gyflwyniad i'r Pwyllgor ar swyddogaeth y Brifysgol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Nododd yr Athro Scott nifer o broblemau'r oedd y Brifysgol yn ymryson â nhw yn cynnwys niferoedd derbyn sy'n gostwng, lleihad o 53% yn y cymorth ariannol a ddarperir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a darfyddiad cyrsiau hyfforddi athrawon yn Wrecsam a oedd yn golygu y byddai'n rhaid i fyfyrwyr dysgu potensial deithio i Fangor neu Gaer.

Dywedwyd fod Prifysgol Glyndŵr yn ymdrechu tuag at ddod yn bartner economaidd arbenigol i'r rhanbarth drwy ganolbwyntio ar ddarparu cyrsiau perthnasol sy'n ymwneud â diwydiant a bod llwyddiant adran Astudiaethau Plentynod Cynnar Glyndŵr a'i ymglymiad â datblygu technoleg drwy'r Technium OpTIC, sydd newydd ei brynu yn Llanelwy, yn gyrru hyn.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (CC:C) bwysigrwydd presenoldeb Prifysgol Glyndŵr i wella'r economi leol a'i rôl yn symud uchelgais Sir Ddinbych o adfywiad economaidd a datblygiad ymlaen. Dywedwyd fod y Brifysgol yn sefydliad hanfodol i fyfyrwyr lleol na allai fforddio mynd i brifysgolion ymhellach i ffwrdd a mynegwyd pwysigrwydd cael darpariaeth addysg uwch o ansawdd yn lleol ar gyfer dysgwyr gydol oes.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i'r Athro Scott am ei gyflwyniad ac fe godwyd nifer o bwyntiau yr ystyriwyd eu bod yn bwysig o ran dyfodol darpariaeth addysg uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.

- Yr angen i gryfhau cysylltiadau rhwng Prifysgol Glyndŵr a cholegau addysg uwch lleol, yn ogystal â chyda phrifysgolion eraill
- Pryder am y lefel ariannu is o'i gymharu â phrifysgolion eraill oherwydd poblogaeth ranbarthol fechan.

- Pwysigrwydd osgoi unrhyw gyfyngiadau ar y gwaith positif a wneir gan y Brifysgol yn dilyn yr adolygiad, ac ar barhad datblygiad prifysgol gadarn a bywiog ar gyfer yr ardal leol.
- Yr awgrym o atodi perthnasedd cyrsiau i ddiwydiant drwy hyrwyddo ysgoloriaethau, prentisiaethau a hyfforddiant i raddedigion gyda chwmnïau a sefydliadau lleol a chenedlaethol.
- Yr angen i gadw talent yng Nghymru, drwy gydweithrediad agosach, o bosib, â phrifysgolion eraill gyda chyflenwi cyrsiau fel gyda hyfforddiant athrawon.

Penderfynwyd:

(i) cydnabod pwysigrwydd darpariaeth addysg uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru i danategu dichonoldeb economaidd yr ardal ac uchelgais y Cyngor a'r rhanbarth i ddatblygu ffyniant yn y dyfodol;

(ii) cydnabod pwysigrwydd darpariaeth addysg uwch yn yr ardal i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwysterau gofynnol y mae ar fusnesau a diwydiannau lleol eu hangen i ffynnu a gyrru ffyniant economaidd;

(iii) cefnogi'r gwaith ymchwil pwysig a wneir yn lleol yn Sir Ddinbych a'i botensial i gynorthwyo datblygiad economaidd ac adfywiad yr ardal;

(iv) y dylid gwneud pob ymdrech i weithio gyda phrifysgolion cymdogol i alluogi athrawon i gael y sgiliau a'r cymwysterau gofynnol a fyddai'n caniatáu iddyn nhw ddysgu yn eu cymunedau lleol, drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'r ddwy iaith, ac i ddysgu'r cwricwlwm Cymraeg;

(v) y dylid annog Prifysgol Glyndŵr i hyrwyddo ei gyrsiau'n weithredol mewn ysgolion a cholegau yn Sir Ddinbych gyda'r bwriad o ddenu mwy o fyfyrwyr o'r sir i astudio yno.

6 PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL

Ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem yma roedd y Pwyllgor yn eistedd fel Pwyllgor Craffu Trosedd ac Anrhefn dynodedig y Cyngor yn unol â Deddf Heddlu a Chyfiawnder 2006 adrannau 19 ac 20.

Cyflwynodd y Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (RhPDC) adroddiad a oedd yn rhoi manylion y cynnydd a wnaethpwyd gyda chyflenwi'r Cynllun Gweithredu Diogelwch Cymunedol Tair Blynedd yn ystod 2011/12 ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Yna fe gyflwynodd y RhPDG Matthew Stewart o Heddlu Gogledd Cymru a lywiodd y Pwyllgor drwy grynodedb perfformiad manwl o'r Bartneriaeth yn y flwyddyn ddiwethaf gan fesur perfformiad yn erbyn y pum Maes Blaenoriaeth a oedd yn ceisio:

- Lleihau trosedd a'r effaith ar y gymuned
- Lleihau aildroseddu
- Taclo Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn effeithiol ac ymddygiad sy'n effeithio er gwaeth ar yr amgylchedd

- Lleihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol a sylweddau
- Taclo cam-drin domestig

Cododd Aelodau'r Pwyllgor nifer o gwestiynau ynglŷn â materion Diogelwch Cymunedol ac mae crynodeb o'r rhain isod:

- Cydnabuwyd llwyddiant prosiect peilot diweddar o ddefnyddio fflat anodd-ei-osod yn Princes Street, y Rhyl fel canolfan adnoddau leol ar gyfer Swyddogion Heddlu Cymorth Cymunedol, a dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai mentrau tebyg yn cael eu cyflwyno ar draws Gogledd Cymru i ddilyn ymlaen â'r llwyddiant yma.
- Nododd y Cynghorydd Dewi Owens nad oedd Swyddogion Heddlu Cymorth Cymunedol (SHCC) Llanelwy wedi gallu darparu'r un presenoldeb rheolaidd ag o'r blaen a bod mân droseddau wedi cynyddu yn y dref a dywedodd fod ar SHCC angen digon o amser i ymgymryd â'u rôl. Cadarnhaodd Mr Stewart fod cant o SHCC yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd ac y bydden nhw'n fuan yn gallu cynorthwyo gyda chefnogi cymunedau i ddelio â mân droseddau drwy ddull datrys problemau rhagataliol a fyddai'n helpu i ragweld trosedd cyn iddi allu digwydd.
- Mynegwyd pryderon nad oedd y camerâu CCTV yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac nad oedd problemau parhaus o droseddau parcio a throseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud ag alcohol yng nghanol tref y Rhyl, yn cael sylw. Priodolwyd hyn i ostyngiad diweddar yn nifer y staff ac absenoldeb na ellid ei osgoi oherwydd salwch o fewn y tîm CCTV, ond fe nodwyd fod y tîm yn awr yn agos at fod yn gyflawn o ran niferoedd. Dywedodd Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd wrth y Pwyllgor fod darpariaeth CCTV y Cyngor yn cael ei adolygu ar hyn o bryd yng nghydestun lleihad yn y gyllideb CCTV, a dywedodd y rhoddid manylion pellach yn dilyn y drafodaeth ar y mater yma gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol. Cytunodd y Pwyllgor fod problem ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y Rhyl yn dal i fod yn fater difrifol a byddai angen sylw priodol cyn y gellid ei datrys. Cytunwyd i gyfeirio'r mater yma at Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu fel y gellid ei ddyrannu ar gyfer craffu pellach.
- Sylwyd ar y cynnydd mewn derbyniadau'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol yn Ysbyty Glan Clwyd ac fe hysbyswyd yr aelodau fod mesurau yn eu lle i ddarparu rhaglen dadwenwyno cymunedol, ond nad oedd y trefniadau presennol yn llifo i'w gilydd o angenrheidrwydd.

Codwyd nifer o faterion hefyd a oedd yn ymwneud yn fwy penodol â materion plismona, ac fe ddywedodd y RhPDG y byddai'r rhain yn cael eu pasio ymlaen i Grŵp Gweithredu'r Heddlu fel y gellid darparu ymateb llawn i'r Pwyllgor. Mae'r materion a godwyd wedi eu crynhoi isod.

- Pryder nad oedd y fenter Gwarchod Tylluanod mor effeithiol â'r cynllun Gwarchod Ffermydd a oedd yn bod yn flaenorol, ac nad oedd y gwasanaeth negeseuon testun i rybuddio preswylwyr o gerbydau amheus yn eu hardal, yn weithredol bellach.
- Awgrymodd y Cynghorydd Bill Cowie, cynrychiolydd CSDd ar yr Awdurdod Heddlu/y Panel Heddlu a Throsedd a chyn swyddog yr heddlu, y dylid

ailgyflwyno dull a ddefnyddiwyd yn flaenorol lle byddid yn rhoi cerdyn ar gerbydau'n hysbysu'r perchennog o unrhyw drosedd ac yn eu hysbysu fod angen iddyn nhw gysylltu â'r heddlu. Dywedwyd fod hyn yn ffordd effeithiol iawn o nodi troseddau/troseddau eraill llai amlwg

- Problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n ymwneud â chymeriant alcohol yn yr ardal o gwmpas Neuadd Tref y Rhyl yn cael eu gwaethygu oherwydd llai o bresenoldeb heddlu ac mae hyn yn awr yn broblem sylweddol. Gofynnodd y Pwyllgor am i gamau gael eu cymryd i ddelio â'r broblem yma, efallai drwy weithredu parth di-alcohol yn yr ardal neu drwy gael patrolau'n fwy rheolaidd.
- Pryder am bobl yn yfed y tu allan i dafarnau ar Stryd Bodfor mor fuan â 9am a hynny'n creu amgylchedd annymunol i breswylwyr ac ymwelwyr.
- Problem barhaus o ddwyn plwm o doeau eglwysi ac ysgolion. Angen mwy o ymdrech i nodi'r farchnad sy'n gyrru'r lladradau yma er mwyn mynd i wraidd y broblem.

Penderfynwyd bod:

i) Y Cyngor yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn Cynllun Gweithredu Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2011-12;

ii) Y meysydd o bryder a amlygwyd gan aelodau'r Pwyllgor yn cael eu cydnabod gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn feysydd sy'n gofyn am ystyriaeth bellach ar gyfer gweithredu targedol;

iii) Diweddariad ar gapasiti'r Cyngor ar gyfer darpariaeth CCTV yn cael ei gyfathrebu i'r Pwyllgor yn dilyn eglurhad yng nghyfarfod CET ar Hydref 1af;

iv) Problem ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol trefi i'w godi â Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu i'w ddyrannu'n briodol.

7 PROSIECT CANOLBWYNT GWASTRAFF BWYD GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Gwastraff (USG) adroddiad a oedd yn darparu diweddariad ar y prosiect gwastraff bwyd cydweithredol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir y Fflint wedi i'r Cynigydd Dewisol, NEAT Biogas Limited, fethu â sicrhau'r cymorth ariannol angenrheidiol i ddatblygu a gweithredu ffatri dreulio'r Canolbwynt. Fe dynnodd NEAT yn ôl o'r prosiect ac fe ddaethpwyd â'r Cynigydd Wrth Gefn, BiogenGreenfinch, i mewn i adeiladu a gweithredu'r ffatri ar gost fymryn yn uwch, ond dywedwyd fod hyn yn dal yn gyfforddus o fforddiadwy o fewn y gyllideb a ddyrannwyd i'r prosiect. Roedd y newid cynigydd wedi achosi oedi'r prosiect o 6 mis ond roedd y gwaith cytundebol yn y camau datblygedig ac roedd y terfyn ariannol i ddigwydd ar Hydref 15^{fed}/16^{eg} 2012.

Rhoddwyd nifer o gwestiynau gan y Pwyllgor ynglŷn â'r defnydd posib o sgil-gynnyrch. Dywedodd yr USG, er y gallai'r gwres a gynhyrchir yn y ffatri fod yn ddefnyddiol mewn rhai amgylchiadau, roedd yn annhebygol o fod o unrhyw ddefnydd ymarferol penodol i'r safle a gynlluniwyd oherwydd yr angen i'r gwres gael ei bibellu'n uniongyrchol i'w gyrchfan a phellter cymharol y safle o adeiladau eraill. Fodd bynnag, gellid trosi'r bio-nwy a gynhyrchir fel sgil-gynnyrch yn drydan a hefyd roedd y gweddillion treuliad anaerobig wedi ei nodi i fod yn ddefnyddiol i ffermwyr lleol.

Ymholodd y Cynghorydd Margaret McCarroll a oedd problem ddiweddar ynglŷn â bagiau tafladwy o ansawdd gwael a ddarperir ar gyfer gwastraff bwyd, wedi ei datrys. Dywedodd yr USG fod y broblem wedi ei nodi a bod bagiau gwell yn cael eu defnyddio'n awr, ond roedd yn cydnabod fod cyflenwadau o'r swp o ansawdd gwaelach wedi eu dosbarthu.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y gellid monitro gweithrediad y ffatri ac fe awgrymwyd y gellid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor pan fyddai'r ffatri'n weithredol mewn oddeutu 12 mis. Gwahoddwyd Aelodau i ymweld â'r safle pan fyddai'n weithredol.

***Penderfynwyd** bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi oblygiadau'r newid yn y cynigydd dewisol ar gyfer datblygu ffatri gwastraff bwyd i BiogenGreenfinch.*

8 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD LLEOL DIOGELU PLANT (BLIDP) CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles (CC:MLI) adroddiad yn rhoi trosolwg o weithrediad, llywodraeth a threfniadau ariannol Bwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych (BLIDP) a pherfformiad y BLIDP yn erbyn ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer 2011-12. Rhoddodd Rheolwr Busnes BLIDP ddiweddariad i'r Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol 2011-12 a oedd yn delio â chyfraniadau partneriaid, darpariaeth hyfforddiant, trefniadau archwilio a sicrwydd ansawdd, Adolygiadau Achosion Difrifol a'r cynnydd a wnaethpwyd hyd yma yn erbyn y Cynllun Busnes.

Roedd diweddariad chwe mis yn mynegi blaenoriaethau'r BLIDP ar gyfer 2012 – 13 fel:

- 1 Nodi plant sy'n arddangos Ymddygiad Rhywiolledig Anaddas yn gynnar a chynnig help iddyn nhw, a bod plant sydd mewn perygl o niwed gan blant eraill yn cael eu diogelu
- 2 Mae'r BLIDP wedi ei sicrhau fod pob cam sydd ar gael wedi ei gymryd i leihau'r risgiau i blant gan staff anniogel
- 3 Mae dealltwriaeth gyffredin o drothwyon ar gyfer ymyriad yn cynorthwyo teuluoedd sy'n agored i niwed ac yn helpu i nodi plant sydd angen eu diogelu.

- 4 Mae plant yn saffach oherwydd bod partneriaethau sydd â chyfrifoldebau diogelu'n gweithio efo'i gilydd i ddiogelu plant.

Ac, yn parhau o 2011-12

5. Mae plant sy'n profi anawsterau oherwydd problemau eu rhieni/gofalwyr gyda chyffuriau ac alcohol, problemau iechyd meddwl neu gam-drin domestig, yn cael eu nodi fel na fydd pryderon yn gwaethygu o ddiogelu plant i broblemau amddiffyn plant.
6. I sicrhau bod cyfeiriad, gwaith ac adolygiad y BLIDP yn cael ei hysbysu gan ymgynghoriad a chyfranogiad gyda phlant, pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor, gallodd CC:MLI egluro'r wybodaeth ganlynol:

- Fod yna raglen eang o hyfforddiant diogelu ar wahanol lefelau, yn cynnwys hyfforddiant mewn adnabod ymddygiad rhywiol dig amhrifodol.
- Roedd Tabl 4 yn dangos presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi ar draws gwahanol asiantaethau ac fe nodwyd presenoldeb cymharol wael staff CSDd. Priodolwyd y gwahaniaethau i'r ystod o gyfarfodydd cymwys a'u hamlder ar gyfer gwahanol asiantaethau, a dywedwyd fod yna bresenoldeb da iawn yn y prif fwrdd ac roedd CSDd wedi cyfrannu'n bositif iawn.
- Dywedwyd nad oedd yr amser a gymerwyd i gynhyrchu adroddiad ar hunanladdiad plentyn yn anarferol o hir oherwydd cymhlethdod ymchwiliad a oedd yn cynnwys sefydliadau lluosog. Roedd yr adroddiad wedi ei gwblhau ac roedd i'w gyhoeddi'n fuan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r CC:MLI am yr adroddiad a nododd na chafwyd unrhyw ddiffygion arwyddocaol gyda diogelu plant, a chytunodd bod gwaith y BLIDP yn bwysig iawn i sicrhau ymwybyddiaeth o broblemau potensial drwy fonitro effeithiol.

Penderfynwyd fod y Pwyllgor:

i) yn derbyn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, a bod sylwadau aelodau ar yr adroddiad yn cael eu nodi

ii) yn nodi'r datblygiadau diweddar o ran y blaenoriaethau a osodwyd gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn chwarter cyntaf 2012-13

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynnydd Craffu adroddiad ar Raglen Waith Craffu a oedd yn mynegi'r gwaith a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor yn y misoedd i ddod, rhoddodd ddiweddariad ar y cynnydd a wnaethpwyd gyda gweithrediad penderfyniadau'r Pwyllgor a nododd faterion eraill a oedd yn ymwneud â gwaith y Pwyllgor.

Esboniwyd fod eitem ar y Perygl o Lifogydd yn Sir Ddinbych wedi ei chyfeirio o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf a chytunodd y

Pwyllgor Craffu Partneriaethau fod yr eitem yma i'w hystyried yn y flwyddyn newydd.

Dywedodd y Cydlynnydd Craffu wrth y Pwyllgor fod dau gyfarfod arbennig wedi eu trefnu, i ystyried adroddiad ar integreiddiad llawn Priffyrdd a Seilwaith CBS Conwy a CSDd ar Hydref 11, ac i gyfarfod â chynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar Dachwedd 29ain.

Cytunodd y Pwyllgor i benodi'r Cynghorydd Dewi Owens i'r Grŵp Monitro Ysgolion, ac i benodi'r Cynghorydd Joan Butterfield i'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, gyda'r Cynghorydd Owens yn ddirprwy a enwir.

Penderfynwyd, yn amodol ar yr uchod:

i) Cymeradwyo'r Flaenraglen Waith;

ii) Penodi'r aelodau a enwir uchod i wasanaethu fel cynrychiolwyr y Pwyllgor ar y Grŵp Monitro Ysgolion a'r Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Ni chyflwynwyd adborth o bwyllgorau eraill

PWYLLGOR ARCHWILIO PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Partneriaethau a gynhaliwyd yn Neuadd Y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 11 Hydref 2012 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Ann Davies, Meirick Davies, Pat Jones, Margaret McCarroll, Dewi Owens a/ac Huw Williams

Observers : Y Cynghorydd Martyn Holland a/ac Y Cynghorydd Gwyneth Kensler

HEFYD YN BRESENNOL

Cyd-bennaeth Prifffyrdd ac Isadeiledd (SD), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriad (HW), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Rhedydd Prosiect Rhanbarthol (DE) (Conwy Cyngor Bwrdeistref Sirol) Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RAH), Gwasanaethau Democratig (SP) a/ac Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Alice Jones, Merfyn Parry a/ac Bill Tasker

2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganodd unrhyw Aelodau unrhyw fuddiannau personol na rhagfarn mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod.

3 MATERION BRYN FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Cododd y Cynghorydd Huw Williams fater mewn perthynas ag erthygl ym mhapur newydd *The Times* a gyhoeddodd restr o'r Prifysgolion brig yn y DU. Cododd y mater am fod "Adolygiad o Addysg Uwch yng Ngogledd Ddwyrain Cymru" wedi bod yn eitem mewn cyfarfod blaenorol. Yn y cyfarfod, roedd Is-ganghellor Prifysgol Glyndŵr, yr Athro Mike Scott, yn bresennol ac wedi rhoi cyflwyniad. Roedd y ffigurau a restrwyd yn *The Times* yn gosod Prifysgol Glyndŵr yn y 108^{fed} safle ar y rhestr.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (CD:C) y byddai'n dadansoddi'r ffigurau ac yn ysgrifennu wedyn at yr Athro Mike Scott am yr erthygl. Pan fyddai'n cael ymateb, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid y byddai'n rhoi gwybod amdano i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau.

4 CYDWEITHIO PRIFFYRDD A SEILWAITH RHWNG CONWY A SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid (CD:C) adroddiad (a gylchredwyd yn flaenorol) i ystyried argymhellion Bwrdd Rhaglen Gydweithio Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych ar ôl ystyried “*Cyd-wasanaeth Cwbl Integredig Priffyrdd a Seilwaith CBS Conwy a CS Dinbych: Adroddiad am y Dyluniad Gwasanaeth Drafft (Medi 2012)*’ ar 12 Medi, 2012.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, Danielle Edwards, o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a oedd wedi llunio'r adroddiad sydd ynghlwm ym mhapurau Atodiad 1.

Bu adrannau Priffyrdd Conwy a Sir Ddinbych yn cydweithio ers 3 blynedd. Sefydlodd Conwy a Sir Ddinbych Fwrdd Cydweithio ac roeddent wedi penderfynu gwerthuso'r cynllun ymlaen. Roedd y Bwrdd Cydweithio wedi cyfarfod ag Aelodau Arwain, Swyddogion a'r Prif Weithredwr i edrych ar ddyfodol y prosiect a gwerthuso a oedd gwerth integreiddio'r gwasanaethau'n llwyr. Daethpwyd i'r casgliad nad integreiddio llwyr fyddai'r ffordd ymlaen, ond nid oedd hynny'n golygu na ddylid cydweithio o gwbl.

Penderfynodd y Bwrdd Cydweithio y byddai adroddiad yn cael ei anfon at Gabinet Conwy a Sir Ddinbych ar 23 Hydref yn y drefn honno a chyflwyno'r adroddiad i gyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau heddiw ac i Bwyllgor Craffu Conwy ar 16 Hydref. Byddai'r adroddiad yn cael ei ddychwelyd hefyd i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar ôl y cyfarfodydd uchod.

Bu'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol yn crynhoi'r prif flaenoriaethau. Roedd y Bwrdd Cydweithio'n teimlo nad oedd yr Achos Busnes Llawn yn achos dichonadwy. Aseswyd sut byddai gwasanaethau'n cael eu staffio, ac a fyddai mwy neu lai o staff yn ofynnol. Hwnnw oedd un agwedd ar y prosiect. Ar ôl deall sut byddai gwasanaethau'n cael eu darparu, y cwestiwn nesaf fyddai ble fyddai'r gwasanaethau'n cael eu lleoli? Y tri dewis oedd:-

- Dewis 1 – Symud staff yr Heath i safle Caledfryn
- Dewis 2 - Cadw safleoedd Caledfryn a'r Heath, gan ad-drefnu'r staff yn ôl meysydd gwasanaeth/iswasanaeth lle'n briodol
- Dewis 3 – Gosod staff o'r Heath a Chaledfryn mewn adeilad a arferai gael ei ddefnyddio'n lle swyddfa ym Mharc Busnes Llanelwy.

Ni fyddai'n ddichonadwy trosglwyddo staff i safle'r Heath yn Llanfairfechan oherwydd nid oedd safle'r Heath yn addas.

Byddai goblygiadau TGCh wrth symud staff a lleoliad.

Roedd Adran 10 o'r adroddiad yn cyfeirio at y model ariannol, a ddangosai gostau posibl y 3 dewis.

Ar ôl i'r Pwyllgor gael trafodaeth, cyflwynwyd ymholiadau amrywiol ac ymatebwyd iddynt fel a ganlyn:-

- Cadarnhaodd y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol nad oedd costau tarfu wedi'u cyfrifo eto oherwydd byddai hyn yn golygu darn sylweddol o waith
- Eglurodd y Rheolwr Prosiect Rhanbarthol y dylai ddweud yn yr adroddiad "gwaredu swyddi" yn hytrach na "gwaredu staff". O ran yr effaith ar staff, roedd staff Conwy a Sir Ddinbych wedi cael eu proffilio. Er mwyn gwneud arbedion, byddai angen colli swyddi. Byddai 9 swydd newydd yn cael eu creu. Roedd y swyddi newydd hyn yn cyfateb i swyddi cyfredol gan leihau'r swyddi a gollir felly i 8.59 FTE (cyflogaeth amser llawn). Drwy gydol y broses, ymgynghorwyd â'r Undebau.
- O ran llety, nid oedd yn bendant y byddai unrhyw un o'r dewisiadau llety'n bodloni'r meini prawf a osodwyd.
- Cadarnhawyd bod y Gofrestr Risg yn cael ei diweddarau ddwywaith y mis ac y byddai'n cael ei diweddarau ar ôl y cyfarfod.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid eto i'r Aelodau nad oedd integreiddio llwyr yn y ddau Awdurdod Lleol yn ariannol ddichonadwy ond y gallai cydweithio ddigwydd o hyd. Ni fyddai integreiddio llwyr o fudd i breswylwyr o ran gwerth am arian. Roedd cydweithio mewnl yn cael ei asesu e.e. yr adran briffyrdd yn cydweithio ag adran yr amgylchedd.

Penodwyd y Cyd-bennaeth Priffyrdd a Seilwaith ym mis Ionawr 2009 i weithio ar gydweithio. Roedd gwaith sylweddol wedi digwydd drwy gydol y 3 blynedd flaenorol, er enghraifft:-

- Drwy gydweithio ar lwybrau graeanu, llwyddwyd i leihau nifer y cerbydau graeanu o 23 i 21
- Roedd contractau cyfunol ar gyfer cynnal a chadw a
- System drwyddedu a rennir yn y Gwasanaethau Morol.

Nid oedd cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol yn ofyniad statudol ond cafwyd cyfarwyddyd clir gan Lywodraeth Cymru y byddai'n rhy ddrud cael 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru'n gweithio'n annibynnol, a bod angen cydweithio, lle bynnag y bo modd, i leihau costau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid argymhellion Bwrdd Rhaglen Gydweithio Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych:-

- Roedd argymhelliad 3.1 wedi'i osod yn yr adroddiad am nad oedd yr Achos Busnes yn gwneud achos clir dros wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith cwbl integredig. Nid yw Conwy a Sir Ddinbych yn mynd ymlaen â'r dewis hwn.
- Parhaodd argymhelliad 3.2 i ystyried sut gallai'r prosiect symud ymlaen, nid gydag integreiddio llwyr ond cynllun cydweithio. Roedd 4 maes yn cael eu hasesu:-
 - goleuadau stryd a chludiant rhwng y cartref a'r ysgol, am nad oedd y rhain yn perfformio cystal ag y dylent
 - edrych ar gyfleoedd pellach lle'r oedd achos dros newid yn gadarnhaol ac yn fuddiol i breswylwyr a lle byddai'n lleihau costau
 - roedd adroddiad archwiliad wedi'i wneud ac roedd cyfle i'r adran Briffyrdd gydweithio ag adran yr Amgylchedd

- datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant cyhoeddus. Byddai penderfyniadau'n seiliedig ar achos busnes cadarn dros newid.

Byddai'r adroddiad, ynghyd â'r sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 23 Hydref.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod Pwyllgor Craffu Partneriaethau Arbennig ar 5 Rhagfyr, 2012, i gyflwyno'r adroddiad wedi'i ddiweddarau yn manylu ar ddewisiadau cydweithio i'r dyfodol.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau'n cefnogi'r argymhellion canlynol:-

- (i) *Am nad oedd yr Achos Busnes yn gwneud achos clir dros Wasanaeth Priffyrdd a Seilwaith cwbl integredig, nid yw Conwy a Sir Ddinbych yn mynd ymlaen â'r dewis hwn;*
- (ii) *Bod Conwy a Sir Ddinbych yn parhau i chwilio am gyfleoedd pellach i resymoli rheolaeth, lleihau costau a gwella gwasanaethau i'n preswylwyr drwy:*
 - a. *Cryfhau'r meysydd iswasanaeth hynny sydd o dan reolaeth sengl*
 - b. *Archwilio'r meysydd iswasanaeth Priffyrdd a Seilwaith lle gallai cydweithio fod o fudd i'n preswylwyr*
 - c. *Archwilio cyfleoedd lleol (penodol i Awdurdod) i gydweithio a threfniadau rheoli ar y cyd rhwng gwasanaethau presennol, a*
 - d. *Cynnal a datblygu ein hymrwymiad i'r datblygiadau rhanbarthol ar gludiant a allai sicrhau buddion ychwanegol, os cânt eu cyflwyno'n dda. Bydd angen seilio penderfyniadau ar achos busnes cadarn dros newid o ran elfennau felly.*
- (iii) *Trefnu cyfarfod Craffu Partneriaethau Arbennig ar gyfer 5 Rhagfyr, 2012 i gael adroddiad Cydweithio Priffyrdd a Seilwaith Conwy a Sir Ddinbych wedi'i ddiweddarau.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.55 a.m.

Adroddiad i:	Y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau
Dyddiad y Cyfarfod:	8 Tachwedd 2012
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Bobby Feeley / Alaw Pierce
Awdur yr Adroddiad:	Nerys Tompsett
Teitl:	Adroddiad Blynyddol ar Amddiffyn Oedolion yn Sir Ddinbych 1 Ebrill 2011 – 31 Mawrth 2012.

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Perfformiad blynyddol cydymffurfriad Amddiffyn Oedolion â Chanllawiau Statudol.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Cyflwyno gwybodaeth i alluogi'r Aelodau i adolygu cynnydd yn y maes allweddol hwn o waith yn ystod y deuddeg mis diwethaf ac i sicrhau fod gofynion polisi amddiffyn oedolion yn rhan o ddulliau cyffredinol y sefydliad o ddarparu a datblygu gwasanaeth.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod yr Aelodau'n:

- i) ystyried ac yn cyflwyno sylwadau ar yr adroddiad; ac
- ii) yn cydnabod pwysigrwydd agwedd gorfforaethol at Amddiffyn Oedolion Bregus a chyfrifoldeb y Cyngor i ystyried hyn fel maes o flaenoriaeth allweddol a'i gydnabod ar y cyd â'r ymrwymiad a'r arwyddocâd a roddir gan Sir Ddinbych i Amddiffyn Plant.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Cefndir

- Dogfen bolisi allweddol Amddiffyn Oedolion Sir Ddinbych yw Polisi a Gweithdrefn Dros Dro Amddiffyn Oedolion Bregus Cymru sy'n seiliedig ar y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru – 'Mewn Dwylo Diogel'. Mae Fforwm Gogledd Cymru'n monitro datblygiadau'n barhaus i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys mewn ymarferion cyfredol.
- Mae 'Mewn Dwylo Diogel' yn datgan fod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i gymryd rôl arweiniol. Nid yw hyn yn gwneud gwaith asiantaethau partner yn ddim llai, bydd y rhain yn dal i fod yn gyfrifol eu hunain i ymateb i amheuan, honiadau neu ddigwyddiadau o gam-drin fel y disgrifir yn y gweithdrefnau. Mae'n rhaid gweithio mewn partneriaeth i amddiffyn oedolion bregus.

- Diffiniad 'Mewn Dwylo Diogel' o oedolyn bregus yw person dros 18 mlwydd oed sydd 'neu a allai fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran, neu salwch, nad yw, neu na allai, gymryd gofal ohono neu ohoni'i hunan neu nad yw'n gallu amddiffyn ei hunan yn erbyn niwed neu gamymddygiad difrifol. Diffinnir cam-drin fel 'ymyrraeth â hawliau dynol ac iawnderau sifil unigolyn gan unrhyw berson neu bersonau eraill'.

4.2 Gweithgareddau Amddiffyn Oedolion 2010 - 2011

Mae'r atodiadau ynghlwm yn dangos ychydig o ddata allweddol gwaith amddiffyn oedolion bregus yn Sir Ddinbych eleni. Dylid nodi, er y cawsom 244 o gyfeiriadau, fod llawer o achosion yn rhai parhaus felly mae'r data a gasglwyd ar yr achosion hynny'n anghyflawn.

Dengys **Atodiad 1** mai'r grŵp sy'n cael ei effeithio fwyaf gan gamdriniaeth yw pobl hŷn ond dylid cofio hefyd mai dyma'r grŵp mwyaf sydd angen gwasanaethau; mae'r ffigwr yn debyg iawn i'r llynedd. Mae data Cymru gyfan o 2010 – 2011 hefyd yn dangos mai merched hŷn yw'r rhai sy'n dioddef fwyaf o gamdriniaeth honedig, sydd hefyd yn wir yn Sir Ddinbych. Mae ychydig o gynnydd yn y cyfeiriadau mewn perthynas â phobl hŷn gyda salwch meddyliol (EMI – henoed bregus eu meddwl) sy'n eu gwneud yn debyg i'n cyfeiriadau ar gyfer pobl gydag Anabledd Dysgu. Efallai mai'r rheswm dros y cynnydd yw bod mwy o hyfforddi staff ar y cyd ar gyfer staff a ddarperir gan asiantaethau a staff y gwasanaethau cymdeithasol sy'n golygu fod categorïau o gamdriniaeth yn cael eu hadnabod yn well. Fodd bynnag, credaf ein bod hefyd yn gorfod cydnabod fod pobl yn byw'n hwy y dyddiau yma, felly, mae'r siawns o bobl yn datblygu dementia yn cynyddu.

Dengys **Atodiad 2** y mathau o gamdriniaeth mae pobl yn ei ddiodeff, o gofio y bydd pobl yn aml yn diodeff mwy nag un math o gamdriniaeth yr un pryd. Dengys data Cymru gyfan mai camdriniaeth gorfforol yw'r ffurf fwyaf cyffredin o gamdriniaeth yn cael ei ddilyn gan esgeulustod. Yma yn Sir Ddinbych mae esgeulustod a chamdriniaeth corfforol yn ymddangos yn gyfartal fel y categorïau uchaf o gamdriniaeth. Rydym wedi sylwi ar gynnydd sylweddol mewn achosion o esgeulustod o ddata'r llynedd. Ni ymddengys fod unrhyw eglurhad clir am hyn.

Mae **Atodiad 3** yn dangos ble digwyddodd y gamdriniaeth. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o gamdriniaeth yn digwydd yng nghartrefi'r oedolion bregus eu hunain. Eleni yn Sir Ddinbych rydym wedi dangos gostyngiad bychan o 39% i 35% o gamdriniaeth honedig yn digwydd yng nghartrefi pobl eu hunain. Mae gostyngiad hefyd yn y gamdriniaeth honedig sy'n digwydd mewn cartrefi preswyl o 29% y llynedd i 21% yn 2011 - 2012 ond cynnydd o 6% mewn cartrefi nyrsio.

Dengys **Atodiad 4** pwy yw'r bobl yr honnir eu bod yn gyfrifol am y gamdriniaeth. Mae 42% o honiadau'n cynnwys staff y sector annibynnol ac mae 32% yn deulu a ffrindiau.

Mae **Atodiad 5** yn dangos fod 27% o achosion yn rhai lle cafwyd cyfaddefiad neu brawf; cynnydd ar 12% y flwyddyn flaenorol. Roedd llai o achosion heb eu profi, gostyngiad o'r 19% yn y flwyddyn flaenorol i 15% yn y cyfnod hwn. Pan geir cyfaddefiad neu pan ellir profi achosion mae'n bosibl gweithredu'n bositif, er

enghraifft diswyddo neu erlyn aelod o staff. Mae methu â phrofi hefyd yn ganlyniad positif, gan fod hynny'n dangos nad yw oedolyn bregus mewn perygl. Roedd 25% o achosion yn amhendant oherwydd diffyg tystiolaeth, yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Gweithredir mewn achosion o'r fath i amddiffyn oedolyn bregus ble bo'n bosibl. Mae rhai achosion yn dal ar y gweill gyda mesurau gwarchodol wedi'u sefydlu i sicrhau bod yr oedolyn bregus yn cael ei h / amddiffyn, gyda'u cyfranogiad a'u cytundeb.

Mae **Atodiad 6** yn dangos y canlyniad i'r dioddefwr honedig. Mewn dros 87.35% o achosion cafodd y peryglon eu dileu neu eu lleihau, fel y gwelir o'r Dangosydd Perfformiad. Ni ddarganfuwyd camdriniaeth mewn 23% o gyfeiriadau sef gostyngiad o 8% ar y flwyddyn flaenorol, sy'n dangos, efallai, well dealltwriaeth o feini prawf camdriniaeth, ond hefyd sydd yn gyfle yn yr achosion hyn i argymhell ymarfer da. Mewn achosion eraill, cafodd cynlluniau Amddiffyn Oedolion eu paratoi, gan gynnwys gwasanaethau ychwanegol neu ragor o fonitro. Dim ond mewn 4 achos y gwnaeth y dioddefwr honedig wrthod unrhyw gweithredu, fel arfer o ganlyniad i amgylchiadau teuluol, er enghraifft mab gyda phroblemau cyffuriau neu alcohol yn frwnt ei dafod neu'n ymosodol yn gorfforol ar ei fam.

Dengys **Atodiad 7** fod 11% o staff wedi'u diswyddo neu wedi ymddiswyddo. Cafodd 4% o droseddwy'r eu herlyn neu dderbyn rhybuddgan yr Heddlu; mae ffigwr isel yma'n gyson gyda data Cymru gyfan. Cafodd 5 gofalwr anffurfiol ragor o gymorth i geisio lleihau'r straen o ofalu, a allai fod wedi arwain at yr honiad. Mewn 30% o achosion ni phrofwyd unrhyw gamdriniaeth, felly doedd dim angen gweithredu. Mewn 20% o achosion ni weithredwyd yn erbyn y camdriniwr honedig, sy'n dangos mor anodd yw pan na ellir profi camdriniaeth, yn enwedig pan mae'n cynnwys aelod o'r teulu. Unwaith eto, mae'r canlyniad yn gyson â data Cymru gyfan. Fodd bynnag, mewn achosion ble mae peryglon yn bodoli, gweithredir i leihau'r peryglon os yw'r oedolyn bregus yn cytuno.

Astudiaethau achos – gweler Atodiadau ychwanegol

4.3 Hyfforddiant

Mae Sir Ddinbych yn dal i ddarparu hyfforddiant amddiffyn oedolion i staff mewnol ac i'r holl asiantaethau allanol. Mae hyfforddiant corfforaethol, yn cyfuno Ymwybyddiaeth Amddiffyn Oedolion a Phlant ac yn cael ei anelu at y rhai sy'n dod i gysylltiad weithiau â phlant neu oedolion bregus, yn cael ei gynnig o dro i dro.

4.4 Dangosyddion Perfformiad

Bob blwyddyn mae'r awdurdodau lleol yn cyflwyno ystadegau Amddiffyn Oedolion i Lywodraeth Cymru sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu dangosyddion perfformiad. Yn 2011 - 2012 cafodd y dangosydd, sy'n dangos y cafwyd gwared neu y lleihawyd y perygl i oedolion bregus, ei gyrraedd mewn 87.35% o achosion. Mae hwn hefyd yn Ddangosydd Perfformiad pwysig i Sir Ddinbych, gan ei fod yn un o'r targedau Dangosyddion Perfformiad cyffredinol sydd wedi'i ddewis i ddangos par mor dda yw Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd.

4.5 Datblygiadau

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Fesur y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) ym mis Mawrth 2012. Disgwylir canlyniad yr ymgynghori ynghylch y Mesur newydd hwn yn gynnar yn 2013. Rhagwelir y bydd yn gosod rhagor o gyfrifoldeb statudol ar bob asiantaeth sy'n gweithio i amddiffyn oedolion bregus yng Nghymru. Disgwylir y bydd y mesur symud at osod amddiffyn Oedolion ar statws tebyg ag amddiffyn plant.
- Cafodd y posibilrwydd ei drafod o sefydlu Pwyllgor Amddiffyn Oedolion ar y cyd â Chonwy ond mae wedi'i roi o'r neilltu ar hyn o bryd nes y ceir canlyniad yr ymgynghoriad ar Fesur y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cynhaliwyd Adolygiad Achos Difrifol mewn perthynas ag achos hen wraig a gafodd ei lladd gan ei gŵr. Mae'r adroddiad trosolwg wedi'i orffen a chynllun gweithredu aml asiantaeth yn cael ei ddatblygu i'w gytuno gan y Pwyllgor Amddiffyn Oedolion.
- Mae'r grŵp tasg a gorffen yn ystyried dewisiadau ar hyn o bryd i argymhell model ar gyfer rheoli diogelu oedolion yn Sir Ddinbych yn y dyfodol.

4.6 Cynllun Gweithredu Amddiffyn Oedolion Bregus

Mae Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Bregus Sir Ddinbych wedi datblygu Cynllun Gweithredu (gweler yr Atodiadau).

5. **Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae gwasanaeth Amddiffyn Oedolion Bregus yn cyfrannu at y gwaith ynghylch blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor i ymateb i newid demograffig a'u hamcan i sicrhau fod pobl hŷn a phobl gydag anabledd dysgu'n gallu byw'n annibynnol yn hwy. Mae sicrhau fod unigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu gwarchod yn eu cymunedau yn cyfrannu at eu hansawdd bywyd yn gyffredinol.

6. **Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gwasanaeth eisoes o fewn y cyllidebau presennol.

7. **Pa ymgynghori a wnaed?**

Amherthnasol

8. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Does yna ddim goblygiadau ariannol yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

9. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae yna berygl y gallai achosion proffil uchel arwain at ragor o gyfeiriadau a fyddai'n her i'r tîm Amddiffyn Oedolion Bregus o ran gallu ymdrin â'r gwaith yn ei strwythur presennol. Mae hwn yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen o gymorth i reoli gofynion y dyfodol.

10. Yr Hawl i Benderfynu

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Partnership Scrutiny Committee Report Appendices


Action Plan:

Action	Target	Responsibility	Timescale	Current Status	RAG Status
1. To improve liaison and co-operation with partner agencies at a strategic level (DAPC).	Improve liaison with key personnel in partner agencies	DAPC	December 2011	The attendance at the DAPC has improved and a representative has been identified for the care home sector	
2. Audit working practices to ensure the new processes due to Wales Policy and improved practices of case recording are embedded in Social Services.	To ensure POVA actions are carried out in a timely and comprehensive manner within the care management process.	POVA Co-ordinator Social Services	February 2012	Audit of POVA cases completed and report being presented to APQS on 18/9/12	
3. Carry out service user/carer involvement survey.	To ensure service is meeting needs of vulnerable adults.	POVA Coordinator DAPC	April 2012	POVA co-ordinator is liaising with colleagues across North Wales gathering information re experience of surveys.	
4. Review Training Strategy	Develop training strategy which is consistent across North Wales	DAPC North Wales Forum	December 2011	Currently being discussed at NWF and sub training group are working on a plan	
5. Ensure we meet aims set out in the 'Big Plan'		DAPC		Actions 1,2,3 & 6 contribute to the outcome 7 within the Big Plan – 'Children, young people and vulnerable adults in Denbighshire are safe'. It was agreed	


				that a separate action point in relation to this was not required.	
6. Raise awareness of the general public to abuse.	To ensure members of public are aware of the support offered in abuse cases	DAPC	April 2011	Ongoing	
7. To increase police officers awareness of POVA issues	Ensure police officers are aware of POVA policy and need to refer work in partnership	North Wales Police POVA Co-ordinator	April 2011	Processes are in place to train police officers in relation to the police POVA referral form. A bulletin is also distributed to all officers raising awareness re adult safeguarding.	

	Achieved/on track
	Work is in progress
	Not started
	No Status

Appendix 1



Appendix 2



Case Study A – relates to Appendix 2


A POVA referral was initially raised by an anonymous caller to CSSIW naming a number of incidents relating to residents suffering neglect.

One of the residents had encountered a number of falls whilst in the care of the home and although risk assessments had been undertaken identifying her


to be at high risk of falls she continued to sustain further falls. Records demonstrated that there was evidence to suggest that the home were failing seek appropriate medical intervention at the times of these incidents, which supported the allegations made by the anonymous caller.

This and other allegations involving two other residents resulted in CSSIW taking the home owner/manger to court. This case was reported in the press in October 2011. The owner admitted five offences, including allowing two residents to develop pressure ulcers and failing to seek appropriate medical intervention even though the condition was causing them pain and discomfort. She also admitted failing to ensure she had enough competent staff on duty. The case concluded on 13th October 2011 with the owner being fined £21,000. It had taken two years to conclude. The outcome following the allegations and the subsequent court hearing resulted in the home being under increased monitoring by CSSIW and Contracts & Commissioning. The home has since closed down.


Appendix 3




Appendix 4



Appendix 5



Appendix 6



Case Study B – relates to Appendix 6


An allegation of physical abuse was made by a staff member against the manager of a home. The allegation related to an incident when the service user in question had to be restrained.

